OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 283 (Cy.47)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*3 Chwefror 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*7 Chwefror 2012*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 78C(8), (9) a (10), 78G(5) a (6) a 78L(4) a (5) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

Cyn gwneud y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, ac mae'r Cyngor hwnnw wedi ymgynghori â Phwyllgor Cymru a Phwyllgor yr Alban yn unol ag adran 44 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**3**) a pharagraff 24 o Atodlen 7 iddi.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Reoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (llygru dyfroedd a reolir)—

(a) yn lle paragraff (b) rhodder—

(**1**) 1990 p. 43. Mewnosodwyd adrannau 78C, 78G a 78L gan adran 57 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Mae adran 78C(10) wedi'i diwygio'n rhagolygol gan adran 86 o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37). Diwygiwyd adran 78L(4) gan adran 104 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16) a Rhan 10 o Atodlen 5 iddi. Gweler y diffiniad o "prescribed" a "regulations" yn adran 78A(9).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 78C, 78G a 78L o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf lywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru.

(**3**) 2007 p. 15. Mae'r termau Saesneg cyfatebol, sef "Welsh Committee" a "Scottish Committee", wedi eu diffinio ym mharagraff 28(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(**4**) O.S. 2006/2989 (Cy. 278), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.